

Deall eich canlyniadau: Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol

Mae'r Adroddiad Canlyniadau yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol i'ch helpu i ddeall sut rydym wedi cyfrifo canlyniadau eich myfyrwyr, a'r data rydym wedi'u defnyddio wrth gyfrifo. Rydym wedi darparu rhywfaint o ddata ar lefel canolfan ac ymgeisydd, a ddisgrifir isod.

Data ar Lefel Canolfan

Mae'r data ar lefel canolfan yn dangos dosraniad graddau eich canolfan ar gyfer pob ffynhonnell o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo graddau eich myfyrwyr. Rydym wedi cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf tablau a graff.

Data hanesyddol: canlyniadau eich canolfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf

Ar gyfer Tystysgrifau Lefel 3, rydym wedi defnyddio canlyniadau eich canolfan yn yr un cymhwyster yng nghyfresi Mehefin 2018 a Mehefin 2019, i 'safoni' eich graddau asesu canolfannau. Yn yr adran hon, rydym wedi darparu dosraniad graddau eich canolfan yn y pwnc hwn.

Ar gyfer Diplomâu Lefel 3, rydym wedi defnyddio sgorau GMU unedau Tystysgrif wedi'u bancio ymgeiswyr 18 mlwydd oed, ynghyd â graddau asesu canolfannau a'r trefnau rhestrol a ddarparwyd gennych, i gyfrifo graddau. Mae data hanesyddol eich canolfan wedi'u darparu er gwybodaeth.

Os yw eich canolfan yn cofrestru ar gyfer y pwnc hwn am y tro cyntaf (gydag unrhyw fwrdd) yna bydd y tabl hwn yn wag.

Graddau asesu canolfannau (2020)

Mae hwn yn dangos dosraniad graddau asesu canolfannau a gyflwynwyd gennych.

Addasu cyrhaeddiad blaenorol

Ar gyfer Tystysgrifau Lefel 3, defnyddiwyd newidiadau yng nghyrhaeddiad blaenorol eich myfyrwyr o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol i addasu'r graddau a ddyfarnwyd i'ch myfyrwyr. Mae rhif positif yn dynodi cynnydd mewn cyrhaeddiad blaenorol. Mae'r addasiad yn cyfrif am gyfran yr ymgeiswyr y gellid eu cyfateb â'u cyrhaeddiad blaenorol yn 2020 ac mewn blynyddoedd blaenorol.

Sylwer, ni fydd ychwanegu'r addasiad cyrhaeddiad blaenorol at y data hanesyddol (canlyniadau eich canolfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf) o reidrwydd yn adio i roi eich graddau wedi'u cyfrifo terfynol. Y rheswm dros hyn yw, er enghraifft, efallai fod y graddau wedi'u cyfrifo terfynol wedi'u haddasu i gyfrif am faint eich cofrestrriad, ac addasiadau i ganlyniadau'n genedlaethol.

Os nad oedd modd i ni gyfateb unrhyw rai o'ch myfyrwyr i ddata cyrhaeddiad blaenorol, bydd y tabl hwn yn wag.

Graddau wedi'u cyfrifo (2020)

Dyma ddsraniad y graddau wedi'u cyfrifo terfynol ar gyfer eich canolfan. Dyma'r canlyniadau a fydd yn ymddangos ar dystysgrifau eich myfyrwyr.

Data ar Lefel Ymgeisydd

Ar gyfer pob ymgeisydd, gallwch weld y radd asesu canolfannau a'r drefn restrol a gyflwynwyd gennych, ynghyd â'r radd wedi'i chyfrifo derfynol.

Sut y cyfrifwyd eich graddau

Tystysgrifau Lefel 3

Ar gyfer Tystysgrifau Lefel 3, nid oes marciau uned na graddau wedi'u bancio gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i'w defnyddio i gyfrifo graddau. Cafodd y graddau felly eu cyfrifo gan ddefnyddio model sy'n debyg i'r hyn a ddatblygodd Ofqual i'w ddefnyddio gyda'r cymwysterau cyffredinol.

Coladwyd canlyniadau eich canolfan yn yr un cymhwyster yng nghyfresi Mehefin 2018 a Mehefin 2019. Yna, addaswyd y dosraniad graddau cyfun i roi cyfrif am broffil cyrhaeddiad blaenorol eich ymgeiswyr mewn cyfresi blaenorol, o gymharu â 2020. Sgorau TGAU cymedrig yr ymgeiswyr yw'r mesur cyrhaeddiad blaenorol a ddefnyddiwyd. Seilir y rhain ar drawsnewidiad graddau cyffredin sy'n rhoi cyfrif am y ffaith bod graddfeydd graddau TGAU (9-1 ar gyfer TGAU diwygiedig wedi'u rheoleiddio gan Ofqual, A*-G ar gyfer yr hen fanylebau TGAU a'r TGAU diwygiedig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon) yn wahanol rhwng cymwysterau yn 2019, pan safodd mwyafrif carfan Safon Uwch 17 mlwydd oed Mehefin 2020 y rhan fwyaf o'u TGAU.

Cam cyfrifo cychwynnol

- I bob canolfan, cyfrifwyd cymedr harmonig o gyfanswm yr ymgeiswyr a gofrestrwyd am gymhwyster yn y data hanesyddol, a chyfanswm yr ymgeiswyr yn y gyfres bresennol. Cafodd unrhyw ganolfan â chymedr harmonig o 15 neu uwch ei gynnwys yn rhediad cychwynnol y model. Defnyddir y canolfannau hyn fel sail ar gyfer cyflawni'r dosraniad graddau targed yn y model. Cafodd ymgeiswyr preifat eu heithrio o'r rhan hon o'r model.

- Yna addaswyd rhagamcanion perfformiad canolfannau yn ôl y gwahaniaeth ym mhroffil cyrhaeddiad blaenorol ymgeiswyr 17 mlwydd oed 'cyfartal' yn y ganolfan, yn y gyfres arholiadau gyfredol a hanesyddol. Mae pwysoli'r addasiad gwahaniaeth cyrhaeddiad blaenorol yn ddibynnol ar y gyfran o garfan cofrestrriad pwnc y ganolfan sy'n cynnwys rhai 17 mlwydd oed cyfartal.
- Yna defnyddiwyd rhagamcanion perfformiad canolfan i greu dosraniad graddau ar gyfer pob canolfan, a dyrannwyd graddau i bob ymgeisydd yn y ganolfan yn seiliedig ar ei safle ar y drefn restrol.
- Wedyn defnyddiwyd y radd safonedig gychwynnol a'r safle ar y drefn restrol i ddeillio sgôr briodolledig i bob ymgeisydd.

Cam dosrannu graddau ac addasu

Yna pennwyd 'trothwyau graddau' (y gwerthoedd lle caiff sgorau eu dosbarthu i fod yn gynrychioliad o un radd neu'r llall) i neilltuo pob sgôr i radd. Mae'n bosibl newid y gwerthoedd hyn fel bod y canlyniadau cyffredinol yn nes at ddosraniad graddau a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Wrth redeg y model i ddechrau, gosodwyd paramedrau'r model i ddyfarnu graddau i ddosraniad oedd yn agos at ganlyniadau yn 2019.

Cam dyrannu graddau terfynol (gan gynnwys addasiad canolfannau bach)

Unwaith y pennwyd trothwyau graddau, lluniwyd dyraniadau graddau terfynol i bob canolfan, yn seiliedig ar ddosraniad sgorau priodolledig ar gyfer eu hymgeiswyr. Yna dosrannwyd graddau i'r ymgeiswyr a gynhwyswyd yng ngham cyfrifo'r model, yn seiliedig ar y drefn restrol a ddarparwyd gan bob canolfan.

Carfanau canolfannau bach – yn achos unrhyw ganolfan â chymedr harmonig o 15 neu lai o gofrestrriadau rhwng 2018 a 2020, am y blynyddoedd y cofrestrwyd ymgeiswyr ganddynt – rhoddwyd mwy o bwys ar y graddau asesu canolfannau, oherwydd anwadalwch y canlyniadau dros amser y mae canolfannau â charfanau llai yn ei brofi.

Cam slotio i mewn

Cafodd ymgeiswyr oedd heb eu cynnwys yng ngham cyfrifo'r model eu 'slotio i mewn' i radd yn ôl eu gradd asesu canolfannau (GAC) a safle ar y drefn restrol. Byddai pob un o'r ymgeiswyr hyn felly'n derbyn y radd sydd agosaf at eu GAC nad yw'n torri trefn restrol y ganolfan.

Er enghraifft, i ymgeisydd X, pe byddai'r ymgeisydd uwchben X yn nhrefn restrol y ganolfan wedi derbyn gradd B drwy'r model, a'r ymgeisydd islaw X yn derbyn E, yna os yw GAC X yn B neu well yna bydd yn cael B; os yw'n E neu'n waeth bydd yn cael E ac fel arall dyfernir ei GAC iddo ar y sail ei fod rhwng y graddau i'r ymgeiswyr sydd y naill ochr a'r llall i X ar y rhestr.

Diplomâu Lefel 3

Ar gyfer Diplomâu Lefel 3, mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi bancio marciau a graddau unedau ar ôl cwblhau'r unedau Tystysgrif y llynedd. Mae hyn felly'n sail ddilys a dibynadwy i'w defnyddio i gyfrifo graddau, yn unol ag egwyddorion Ofqual. Dull yw hwn sy'n debyg iawn i'r hyn a ddefnyddiwyd i safoni graddau Safon Uwch yng Nghymru.

Cam cyfrifo

Yn y cam cyntaf, cyfrifwyd swm GMU unedau pob ymgeisydd 18 mlwydd oed oedd â'i holl unedau Tystysgrif wedi'u bancio o 2019.

Cyfrifwyd gwriad cymedrig a safonol y marciau GMU a gyflawnwyd gan rai 18 mlwydd oed yn cofrestru am y tro cyntaf ym mhob uned Diploma yn unig yn 2018 a 2019.

Yna cyfunwyd sgorau z carfan 2020 â'r paramedrau dosraniad uned Safon Uwch i gynhyrchu sgôr briodoledig ar gyfer pob uned Diploma yn unig. Lluoswyd y sgorau z Tystysgrif â gwriad safonol (gs) uned Diploma yn unig gan adio'r canlyniad at ei gymedr (c): $(z \times sd) + m$.

Cyfrifwyd sgôr briodoledig i bob ymgeisydd drwy adio'r sgôr uned Tystysgrif at y sgorau uned Diploma a amcangyfrifwyd.

Noder – er y defnyddir sgorau z seiliedig ar GMU ar lefel ymgeisydd i'w cyfrifo, nid yw'r sgorau priodoledig yn cael eu neilltuo i ymgeiswyr. Yn hytrach, cynrychioliad ydynt o set o sgorau i bob canolfan fel y diogelir trefn restrol y ganolfan.

Cam dosrannu graddau ac addasu

Yna pennir 'trothwyau graddau' i neilltuo pob sgôr i radd. Mae'n bosibl newid y gwerthoedd hyn fel bod y canlyniadau cyffredinol yn nes at ddosraniad graddau a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Wrth redeg y model i ddechrau, gosodwyd paramedrau'r model i ddyfarnu graddau i ddosraniad oedd yn agos at ganlyniadau yn 2019.

Cam dyrannu graddau

Unwaith y pennwyd gwerthoedd trothwyau graddau, lluniwyd dyraniadau graddau i bob canolfan, yn seiliedig ar y dosraniad sgorau priodoledig ar gyfer eu hymgeiswyr. Yna dosrannwyd graddau i'r ymgeiswyr a gynhwyswyd yng ngham cyfrifo'r model, yn seiliedig ar y drefn restrol a ddarparwyd gan bob canolfan.

Cam slotio i mewn

Cafodd ymgeiswyr oedd heb eu cynnwys yng ngham cyfrifo'r model eu 'slotio i mewn' i radd yn ôl eu gradd asesu canolfannau (GAC) a safle ar y drefn restrol. Byddai pob un o'r

ymgeiswyr hyn felly'n derbyn y radd sydd agosaf at eu GAC nad yw'n torri trefn restrol y ganolfan.

Er enghraifft, i ymgeisydd X, pe byddai'r ymgeisydd uwchben X yn nhrefn restrol y ganolfan wedi derbyn gradd B drwy'r model, a'r ymgeisydd islaw X yn derbyn E, yna os yw GAC X yn B neu well yna bydd yn cael B; os yw'n E neu'n waeth bydd yn cael E ac fel arall dyfernir ei GAC iddo ar y sail ei fod rhwng y graddau i'r ymgeiswyr sydd y naill ochr a'r llall i X ar y rhestr.

Gwiriad cyffredinol ar ganlyniadau

Yn unol â gofynion Ofqual, gwnaed gwiriad cyffredinol ar ganlyniadau unwaith y cwblhawyd y broses o gyfrifo graddau. Dadansoddiad o'r canlyniadau, gan nodi'r cofrestriadau wedi'u hagregu a dosraniadau graddau arfaethedig i'w hystyried gan grŵp gwneud penderfyniadau dan arweiniad y Swyddog Cyfrifol. Os nad oedd canlyniadau'n cyfateb yn dda i gyfresi blaenorol, addaswyd y model i sicrhau cymaroldeb rhwng blynyddoedd, gan ddefnyddio'r trothwyau graddau. Penderfyniadau'r Swyddog Cyfrifol oedd y rhain ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Safonau a thimau'r pynciau.